Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# SWYDDOG DISGYBLU A CHŴYNION

**Uned Adnoddau Dynol a Chefnogi Busnes**
**Contract cyfnod penodol o 6 mis (gyda posibilrwydd o fod yn barhaol),**
**22.2 awr (3 diwrnod) yr wythnos**
**Gradd GTAGC 09 £42,839i £46,142 y flwyddyn (pro rata)**

Rydym yn awyddus i benodi Swyddog Disgyblu a Chŵynion i ymuno â'r Uned Adnoddau Dynol a Chefnogi Busnes yn y Pencadlys yn Llanelwy (gyda rhywfaint o weithio ystwyth os gofynnir amdano).

Drwy gynnal ymchwiliadau trylwyr, effeithlon a theg, byddwch yn gyfrifol am ddarparu adroddiadau manwl, diduedd i gefnogi penderfyniadau rheolwyr mewn perthynas â materion disgyblu a chŵynion. Mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth a data, cynnal cyfweliadau a chadw cofnodion cyfrinachol cywir. Byddwch yn gyfrifol am baratoi dogfennaeth ar gyfer gwrandawiadau mewnol ac allanol yn ôl yr angen, a'u cyflwyno yn y gwrandawiadau. Bydd y dyletswyddau gweinyddol cysylltiedig yn cynnwys drafftio llythyrau, paratoi datganiadau ac adroddiadau.

Byddwch yn gyfathrebwr effeithiol gyda sgiliau cyflwyno da, gyda phrofiad o gyfweld ac â'r gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth, crynhoi manylion a chyflwyno adroddiadau ffurfiol. Bydd gennych wybodaeth gyfredol am ddeddfwriaeth berthnasol ac arfer da a sgiliau trefnu rhagorol i reoli eich llwyth gwaith eich hun a chwrdd â therfynau amser. Bydd angen i chi fod yn hyblyg ac yn barod i addasu i newid er mwyn delio â cheisiadau wrth iddyn nhw godi a bydd angen i chi allu gweithio'n annibynnol ac o'ch pen a'ch pastwn eich hun.

Sylwch fod y swydd hon yn destun Gwiriad DBS a geirdaon boddhaol. I gael manylion pellach ynglŷn â'r rôl, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: [hrdesk@northwalesfire.gov.wales](mailto:hrdesk@northwalesfire.gov.wales)

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 12.00 hanner dydd, 11/05/2024**

*Cedwir at y dyddiad cau yn llym ac ni fydd unrhyw eithriadau.*

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau | PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall
Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.